# Y CYNGOR, 13/12/07

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Meinir Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** S W Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alun Wyn Evans, R Glyn Evans, Tomos Evans, W A Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, E H Griffith, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Huw Hughes, Richard Parry Hughes, Robert J Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Dafydd Iwan, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Arwel Jones, Brian Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, E Meinir Jones, Henry Jones, Iris Margretta Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, Linda Wyn Jones, June Jones, R L Jones, R Morris Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, Bill Lovelock, June Marshall, J W Meredith, Godfrey Northam, Glyn Owen, M Sol Owen, W.Roy Owen, W Tudor Owen, Gerald Parry, R Arwel Pierce, Emyr Pugh, D H Roberts, Caerwyn Roberts, Ieuan Roberts, Liz Saville Roberts, W Gareth Roberts, Jean Roscoe, Dyfrig Siencyn, Kathleen Thomas, M. L.Vaughan, Alan Williams, Ann Williams, Ernest Williams, G.O.Williams, J.W.Williams Owain Williams ac R H Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams (Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Strategol - Datblygu), D P Lewis (Cyfarwyddwr Strategol - Gofal), Dewi V Rowlands (Cyfarwyddwr Strategol - Amgylchedd), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Dewi Jones (Pennaeth Ysgolion), Iwan Roberts (Uwch Reolwr Gwasanaethau Ysgolion), Seimon Williams (Rheolwr Polisi a Pherfformiad (Ysgolion)), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Cyfadran Datblygu), Gareth Wyn Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu), ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Wyn Myles Meredith a Trevor Roberts

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Michael Sol Owen.

**2 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2007 fel rhai cywir.

## 3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(A) Eitem Ad-drefnu Ysgolion Cynradd

Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn arweiniol wedi ei baratoi gan y Swyddog Monitro. Fe'u hatgoffwyd mai cyfrifoldeb pob aelod unigol oedd penderfynu os oedd ganddo/ganddi fuddiant i'w ddatgan ai peidio.

Eglurwyd bod y Cod Ymddygiad yn nodi fod gan aelod fuddiant personol mewn mater, os oedd yn tybio y gellid, yn rhesymol, ystyried y byddai penderfyniad ar y mater, yn debygol o roi mantais neu anfantais i aelod, ei deulu, cyfaill neu berson yr oedd ganddo gysylltiad personol a hwy, a fyddai effeithio ar ei allu i gymryd rhan ddiduedd yn y drafodaeth.

Roedd natur y buddiant ynglŷn â'r Cynllun Ad-drefnu Ysgolion Cynradd yn syrthio i dri chategori, sef:-

(i) **Llywodraethwyr un o ysgolion cynradd y sir**

Gofynnwyd i aelodau oedd yn llywodraethwyr ysgolion cynradd y sir lofnodi taflen a ddosbarthwyd ar ddechrau'r cyfarfod.

Eglurwyd bod gan yr aelodau hynny hawl siarad a phleidleisio ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag nid oedd ganddynt hawl pleidleisio ar gynigion oedd yn ymwneud yn unigol a phenodol â'r ysgol berthnasol.

Llofnodwyd y daflen gan yr aelodau canlynol:-

Y Cynghorydd S W Churchman, Ysgol Garndolbenmaen
Y Cynghorydd E T Dogan, Ysgol Ein Harglwyddes Bangor
Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Ysgol Bro Lleu, Penygroes
Y Cynghorydd Elwyn Edwards, Ysgol Llawr y Betws, Glanrafon
Y Cynghorydd Huw Edwards, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Maesincla, Caernarfon
Y Cynghorydd Trefor Edwards, Ysgol Dolbadarn, Llanberis
Y Cynghorydd T G Ellis, Ysgol Bro Hedd Wyn ac Ysgol Edmwnd Prys
Y Cynghorydd Alun Wyn Evans, Ysgol Penbryn, Tywyn
Y Cynghorydd R Glyn Evans, Ysgol y Felinheli
Y Cynghorydd Tomos Evans, Ysgol Pentre-uchaf
Y Cynghorydd W A Evans, Ysgol yr Eifl, Trefor ac Ysgol Llanaelhaearn
Y Cynghorydd Simon Glyn, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Tudweiliog
Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones, Ysgol Glancegin, Bangor
Y Cynghorydd Gwen Griffith, Ysgol Bodfeurig, Tregarth
Y Cynghorydd Margaret Griffith, Ysgol Llangybi
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, Ysgol Borth y Gest
Y Cynghorydd Huw Hughes, Ysgol Bethel
Y Cynghorydd Richard Parry Hughes, Ysgol Bro Plennydd ac Ysgol Abererch

Y Cynghorydd Sylvia Humphreys, Ysgol Glancegin, Bangor
Y Cynghorydd O P Huws, Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni
Y Cynghorydd Dafydd Iwan, Ysgol Bontnewydd
Y Cynghorydd Evie Morgan Jones, Ysgol Llanbedr
Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Ysgol Ieuan Gwynedd
Y Cynghorydd Dewi Llewelyn, Ysgol y Garnedd
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, Ysgol Penybryn, Tywyn
Y Cynghorydd Arwel Jones, Ysgol Manod, Blaenau Ffestiniog
Y Cynghorydd Brian Jones, Ysgol Cwm y Glo
Y Cynghorydd Charles Jones, Ysgol Llanrug
Y Cynghorydd E Meinir Jones, Ysgol Morfa Nefyn
Y Cynghorydd Henry Jones, Ysgol Treferthyr, Criccieth
Y Cynghorydd Iris Margretta Jones, Ysgol Dyffryn Dulas, Corris
Y Cynghorydd John Gwilym Jones, Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Foel Gron
Y Cynghorydd J R Jones, Ysgol Llandygai
Y Cynghorydd June Jones, Ysgol Beddgelert ac Ysgol y Gorlan, Tremadog
Y Cynghorydd Linda Wyn Jones, Ysgol Bro Cynfal
Y Cynghorydd R L Jones, Ysgol Gwaun Gynfi
Y Cynghorydd R Morris Jones, Ysgol Santes Helen ac Ysgol Pendalar
Y Cynghorydd W Penri Jones, Ysgol Llanbedrog
Y Cynghorydd P.G.Larsen, Ysgol Penisarwaun
Y Cynghorydd Dewi Lewis, Ysgol Cefn Coch
Y Cynghorydd Dewi Llewelyn, Ysgol y Garnedd, Bangor
Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd, Ysgol Bron y Foel
Y Cynghorydd Bill Lovelock, Ysgol Glanadda, Bangor
Y Cynghorydd June Marshall, Ysgol Cae Top
Y Cynghorydd Godfrey Northam, Ysgol Llanllechid
Y Cynghorydd Meinir Owen, Ysgol y Groeslon ac Ysgol Llandwrog
Y Cynghorydd W.Roy Owen, Ysgol yr Hendre, Caernarfon
Y Cynghorydd W Tudor Owen, Ysgol Maesincla
Y Cynghorydd Gerald Parry, Ysgol Yr Hendre, Caernarfon
Y Cynghorydd Emyr Pugh, Ysgol Dyffryn Ardudwy
Y Cynghorydd D H Roberts, Ysgol y Parc
Y Cynghorydd Caerwyn Roberts, Ysgol Tan y Castell Harlech ac Ysgol Talsarnau
Y Cynghorydd Ieuan Roberts, Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog
Y Cynghorydd Liz Saville Roberts, Ysgol Morfa Nefyn a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Edern
Y Cynghorydd W Gareth Roberts, Ysgol Llidiardau ac Ysgol Crud y Werin
Y Cynghorydd Jean Roscoe, Ysgol Hirael
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Ysgol Gynradd Dolgellau
Y Cynghorydd Kathleen Thomas, Ysgol Cae Top
Y Cynghorydd M. L.Vaughan, Ysgol Gynradd Aberdyfi
Y Cynghorydd Ann Williams, Ysgol Abercaseg ac Ysgol Penybryn
Y Cynghorydd Alan William, Cadeirydd Ysgol Cymerau, Pwllheli
Y Cynghorydd Ernest Williams, Ysgol Maenofferen
Y Cynghorydd G.O.Williams, Ysgol Waunfawr
Y Cynghorydd J.W.Williams, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol y Faenol, Bangor
Y Cynghorydd Owain Williams, Ysgol Brynaerau

Y Cynghorydd R H Wyn Williams, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Abersoch

(ii) **Perthynas yn gweithio yn un o ysgolion cynradd y sir**

Adroddodd y Swyddog Monitro y dylai aelod ddatgan bodolaeth a natur y buddiant ar gychwyn y cyfarfod a datgan hefyd os cafwyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau. Os cafwyd gollyngiad roedd gan yr aelodau hawliau llawn i siarad a phleidleisio. Os na chafwyd gollyngiad ni ellid siarad na phleidleisio ar gynnig yn ymwneud â'r ysgol benodol a byddai raid gadael y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr ysgol honno.

(a) Datganodd y canlynol fuddiant personol oherwydd bod ganddynt berthnasau'n gweithio yn y sector gynradd, ond roeddynt wedi cael gollyngiad gyda hawl siarad a phleidleisio gan y Pwyllgor Safonau:-

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards - perthnasau'n athrawon yn y sector gynradd;
Y Cynghorydd Simon Glyn – perthnasau'n athrawon yn Ysgol y Gorlan, Tremadog ac Ysgol Cymerau, Pwllheli;
Y Cynghorydd O P Huws – brawd yn gweithio i UCAC;
Y Cynghorydd Pat Larsen – perthnasau'n brifathrawon yn y sector gynradd;
Y Cynghorydd Richard P Hughes - merch yng nghyfraith yn athrawes yn Ysgol Eifion Wyn a mab yn athro yn Ysgol Coed Menai.

(b) Datganodd y canlynol fuddiant personol oherwydd bod ganddynt berthnasau yn gweithio yn y sector gynradd, ond nid oeddynt wedi cael golygiad gan y Pwyllgor Safonau:-

Y Cynghorydd Dylan Edwards – perthnasau yn athrawon yn y sector gynradd;
Y Cynghorydd Tom Ellis - merch yng nghyfraith yn seicolegydd addysg yn y sector gynradd
Y Cynghorydd Alun Wyn Evans – gwraig yn gweithio yn Ysgol Penbryn, Tywyn;
Y Cynghorydd Huw Price Hughes – gwraig yn gweithio yn Ysgol Bethel;
Y Cynghorydd Peredur Jenkins – merch yn athrawes yn y sector gynradd;
Y Cynghorydd Meinir Jones – dwy chwaer yn gweithio yn y sector gynradd;
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – merch yn gweithio yn Ysgol Tan y Castell Harlech;
Y Cynghorydd Ann Williams – perthynas yn gweithio i CYNNAL yn y sector gynradd;
Y Cynghorydd Gwilym Williams – chwaer yng nghyfraith yn gweithio yn Ysgol Blaenau Ffestiniog;
Y Cynghorydd Owain Williams - merch yn seicolegydd addysg yn y sector gynradd

**(iii) Perthynas yn ddisgybl yn un o ysgolion y sir**

Adroddodd y Swyddog Monitro y dylai aelod ddatgan bodolaeth a natur y buddiant yn syth pan ddeuai'n amlwg fod cynnig neu drafodaeth ar yr ysgol benodol honno. Ni fyddai gan aelod hawl trafod, siarad na phleidleisio a dylai adael y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr ysgol honno.

Datganodd y canlynol fod ganddynt blant, neu eu bod yn perthyn yn agos i blant oedd yn ysgolion cynradd Gwynedd.

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Tomos Evans, Keith Greenly-Jones, Huw Price Hughes, J R Hughes, Richard P Hughes, Sylvia Humphreys, Peredur Jenkins, Charles Wyn Jones, Henry Jones, J R Jones, Linda Wyn Jones, R Len Jones, W Penri Jones, Pat Larsen, Dilwyn Lloyd, Bill Lovelock, Meinir Owen, W Tudor Owen, Gerald Parry, E Caerwyn Roberts, D H Roberts, Ieuan Roberts, Kathleen Thomas, Dyfrig Siencyn a R H Wyn Williams

**Ni adawodd unrhyw aelod y Siambr yn sgil y datganiadau (i)-(iii)uchod.**

(B) Datganodd y swyddogion canlynol ddiddordeb yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Cynradd oherwydd y rhesymau a nodir

Prif Weithredwr oherwydd bod chwaer yng nghyfraith iddo yn gweithio yn un o'r ysgolion sydd ar y rhestr arfaethedig i gau yn y ddogfen drafft.

Cyfarwyddwr Strategol Datblygu – oherwydd bod ei blant yn mynychu Ysgol Gynradd Bethel, a'i fam yn dysgu yn Ysgol Eifionydd Porthmadog

Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau oherwydd ei fod yn llywodraethwr Ysgol Bontnewydd

Uwch Reolwr Polisi oherwydd ei fod yn dad i blentyn sydd yn ysgol Bro Lleu, Penygroes a'i fod hefyd yn llywodraethwr Ysgol Bro Lleu

(C) Datganodd y Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ddiddordeb yn yr eitem Ffioedd Etholiadol Llywodraeth Leol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys ffioedd newydd ar gyfer Swyddog Canlyniadau a'i bod yn derbyn ffi am y cyfrifoldeb hwnnw a gadawodd y Siambr yn ystod yr eitem

Datganodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol ddiddordeb yn yr eitem Ffioedd Llywodraeth Leol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys ffioedd newydd ar gyfer dirprwy swyddogion canlyniadau a'i fod ef yn derbyn ffi am y cyfrifoldeb hwnnw, a gadawodd y Siambr yn ystod yr eitem.

(CH) Datganodd y Cynghorwyr J.R. Jones a Dylan Edwards ddiddordeb yn yr eitem Treth Cyngor a Hawl Disgresiwn oherwydd eu bod yn berchen tai gwag a gadawsant y siambr yn ystod y drafodaeth.

## 4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Estynnwyd croeso cynnes i'r wasg a'r cyhoedd i'r cyfarfod, i wrando ar drafodaethau'r Cyngor.

(i) Cydymdeimlwyd â'r canlynol yn eu profedigaeth:-

- Teulu Llew Huxley, cyn cynghorydd a chyn cadeirydd Cyngor Gwynedd, a thalwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Arwel Pierce;
- Teulu W S Jones (Wil Sam), un o brif ddramodwyr Cymru, fu'n ysgrifennu dramâu a storïau byrion am gymeriadau bro ei febyd, Eifionydd am dros hanner can mlynedd;
- Teulu Ray Gravell sylwebydd, actor a seren ryngwladol y byd rygbi;
- Sion Hardy, cyn disgybl yn Ysgol Tryfan Bangor a fu farw mewn amgylchiadau trist iawn yn Lerpwl;
- Teulu Richard Vaughan Jones, cyn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd

Hefyd mynegwyd cydymdeimlad â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(ii) Anfonwyd dymuniadau gorau at y Cynghorydd Wyn Myles Meredith oedd yn derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

(iii) Llongyfarchwyd Ellen Jones, Gofalydd Cartref o fewn Gwasanaethau Darparu. Mewn seremoni gwobrwyo ddiweddar yng Nghaerdydd , cafodd Ellen ei chyflwyno gyda "Gwobr Gofal Cymru 2007 ar gyfer Gweithwyr Cymunedol".

Mae Ellen yn gweithio i'r Cyngor ers 1996. Mae Gwasanaethau Darparu yn ymfalchïo bod Ellen wedi derbyn yr anrhydedd ac yn sicr ei bod yn adlewyrchu ymroddiad a gwaith caled y staff.

Hefyd llongyfarchwyd y gwyddonydd blaenllaw Syr John Houghton, ar ennill Gwobr Heddwch Nobel – nodwyd iddo roi cyflwyniad grymus i'r Cyngor y llynedd ar gynhesu byd eang.

## 5. DEISEBAU

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15 , cyflwynwyd deisebau gan yr aelodau canlynol:-

Y Cynghorydd O P Huws - wedi ei lofnodi gan 2181 o wrthwynebwyr i gau Ysgol Bala Deulyn, Nantlle;

Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd - wedi ei lofnodi gan dros 4,000 o wrthwynebwyr i'r Cynllun Ad-drefnu Ysgolion Cynradd Gwynedd;

Y Cynghorydd E T Dogan - wedi ei lofnodi gan aelodau Eglwys Ein Harglwyddes a Sant Ioan, Bangor yn gwrthwynebu ffederaleiddio Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor ac Ysgol Santes Helen, Caernarfon;

Y Cynghorydd P G Larsen - wedi ei lofnodi gan 772 o wrthwynebwyr i gau Ysgol Rhiwlas;

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths - wedi ei llofnodi gan drigolion ardal Porthmadog, Morfa Bychan a Borth y Gest yn mynegi siom a gwrthwynebiad i gau Ysgol Borth y Gest;

Y Cynghorydd Elwyn Edwards wedi ei lofnodi gan wrthwynebwyr i gau Ysgol Llawrbetws;

Diolchodd y Cadeirydd am y deisebau a gyflwynwyd iddi, ac hefyd am y llythyrau niferus a deisebau eraill oedd wedi cyrraedd swyddfeydd y Cyngor. Trosglwyddir y deisebau a'r gohebiaethau er sylw'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu.

**6 MATER BRYS**

Adroddwyd, er gwybodaeth, bod sawl aelod wedi cyfeirio penderfyniad y Bwrdd ynglŷn ag Adrefnu Ysgolion Cynradd Gwynedd i fyny i'r Cyngor, ond nad oedd y weithred yn berthnasol oherwydd bod y mater ar y rhaglen eisoes.

**7 CWESTIYNAU**

**(i) Cwestiwn gan y Cynghorydd M L Vaughan**

"A ninnau, fel Cyngor mewn adeg o arbedion, toriadau ac yn y blaen, beth yw cyfanswm y gost dros y flwyddyn ddiwethaf o gynnal gwahanol gyfarfodydd gan gynnwys cinio i'r aelodau a'r staff h.y. lleoedd y tu allan i swyddfeydd y Cyngor - gwestai ac yn y blaen?"

**Ateb ffurfiol yr Arweinydd Portffolio Cyllid, y Cynghorydd Peredur Jenkins:**

Diolch am y cwestiwn

£47,620 oedd cyfanswm y gost o gynnal cyfarfodydd, gan gynnwys lluniaeth perthnasol, mewn lleoedd y tu allan i swyddfeydd y Cyngor yn 2006/07.

Dadansoddiad fesul Gwasanaeth o gost cynnal cyfarfodydd tu allan i swyddfeydd y Cyngor:

| | £ |
|---|---|
| Gwasanaeth Economi ac Adfywio (yn cynnwys £7,916 Cymunedau'n Gyntaf) | 11,676 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth | 6,659 |
| Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | 5,941 |
| Gwasanaeth Plant a Theuluoedd | 4,720 |
| Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes | 4,050 |
| Gwasanaeth Ysgolion Canolog | 3,401 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 2,961 |
| Gwasanaeth Gweinyddol a Gwarchod Cyhoedd | 1,663 |
| Ysgolion Datganoledig | 1,628 |
| Unedau Cefnogol Amgylchedd | 1,136 |
| Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 836 |
| Gwasanaeth Ymgynghoriaeth | 653 |
| Gwasanaeth Adnoddau Dynol | 645 |
| Prif Weithredwr | 570 |
| Gwasanaeth Cefnogaeth Gofal Cwsmer | 358 |
| Gwasanaeth Cyllid | 232 |
| Gwasanaeth Darparu | 216 |
| Gwasanaeth Tai | 108 |
| Unedau Cefnogol Gofal | 87 |
| Unedau Cefnogol Adnoddau | 80 |
| Cyfanswm | 47,620 |

Gellid dadansoddi'r un cyfanswm fesul cyflenwr:

| Cyfadran | Amgylchedd | Adnoddau | Datblygu | Gofal | Prif Weithredwr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r Cyflenwr | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Galeri, Caernarfon | 1,286 | 80 | 784 | 1,077 | 1,938 | 5,165 |
| MATRA (Maesgeirchen And Tan-y- | 0 | 0 | 2,250 | 0 | 0 | 2,250 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bryn Residents' Association) | | | | | | |
| CAST, Parc Menai | 207 | 0 | 1,714 | 0 | 164 | 2,085 |
| Cyfle Ffestiniog Cyf | 0 | 0 | 1,583 | 0 | 0 | 1,583 |
| Neuadd Gymuned Talsarnau | 0 | 0 | 1,393 | 0 | 0 | 1,393 |
| Gwesty'r Celt, Caernarfon | 660 | 67 | 281 | 242 | 0 | 1,250 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 0 | 24 | 0 | 1,125 | 0 | 1,149 |
| Neuadd Bentref Carmel | 0 | 0 | 1,140 | 0 | 0 | 1,140 |
| Symiau llai (£200 ar gyfartaledd) i 158 o gyflenwr eraill | 7,131 | 2,807 | 11,610 | 5,648 | 4,409 | 31,605 |
| Cyfanswm | 9,284 | 2,978 | 20,755 | 8,092 | 6,511 | 47,620 |

Yn gyffredinol, mae cyfarwyddyd clir wedi cael ei roi i ddefnyddio lleoliadau'r Cyngor, gan gynnwys INTEC ym Mharc Menai ac Ysgol Pendalar, yn gyntaf. Deallaf hefyd y bydd modd defnyddio'r ystafelloedd ym Mhenrhyndeudraeth o fis Ionawr 2008 ymlaen.

Wedi holi'r gwasanaethau ddaru gynnal cyfarfodydd tu allan, derbyniwyd eglurhad fod prinder ystafelloedd cyfarfod o fewn y Cyngor. Er mai'r dewis cyntaf pob amser ydi ystafelloedd mewnol, nid oes ystafell addas ar gael pob amser ac mae ystafelloedd allanol yn gorfod cael eu llogi. Ymddengys fod y bwlch amlycaf yn ardal Caernarfon.

Mae'r Prosiect Swyddfeydd bellach ar drothwy comisiynu asesiadau dichonoldeb fel sail i gynlluniau gweithredu, ac yn anelu i sicrhau mwy o ystafelloedd pwyllgor, ystafelloedd cyfarfod, ac ystafelloedd hyfforddi i'r dyfodol.

Hefyd, nodwyd fod rhai "cyfarfodydd busnes", neu debyg, wedi'u cynnal mewn ystafelloedd allanol er mwyn creu'r awyrgylch addas, ond yn aml fod incwm neu nawdd wedi'i dderbyn i gyllido'r digwyddiadau yma.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd M L Vaughan**

Diolch am yr ateb.

Gofynnaf felly i swyddogion geisio dod o hyd i lefydd o fewn y Cyngor yn y dyfodol er mwyn osgoi cost ddiangen.

(ii) **Cwestiwn y Cynghorydd Liz Savill Roberts:**

"Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i ddatblygu polisi'r Cyngor ar yr iaith Gymraeg"

**Ateb Uwch Arweinydd Datblygu, Y Cynghorydd Dafydd Iwan**

Diolch am y cwestiwn.

Fel yr unig gyngor yng Nghymru sy'n gweinyddu trwy'r Gymraeg, credaf fod angen inni herio cynghorau eraill Cymru i ddilyn ei hesiampl.

Mae nifer o gamau allweddol wedi eu cymryd fel rhan o bolisi'r Cyngor i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd

Yn ogystal â pharhau i sicrhau gweithred gadarn o'i bolisi iaith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, dros y 18 mis diwethaf mae wedi cydnabod yr angen i fod yn llawer mwy rhagweithiol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhellach yn gymunedol ac yn arwain y ffordd gyda'i bartneriaid.

Dyma nifer o'r materion sydd wedi cael ac yn cael sylw:-

- Sefydlu ac arwain Grŵp Tasg Hyrwyddo'r Iaith yn cynnwys ein prif bartneriaid, y sector wirfoddol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn cytuno a rhoi mewn lle rhaglen waith ar gyfer 2007/08 yn y lle cyntaf
- Cytuno gyda'r partneriaid i lunio Siartr Iaith i Wynedd erbyn Mawrth 2008 fydd yn nodi'n glir beth gall y cyhoedd ddisgwyl fel darpariaethau gan y cyrff allweddol yng Ngwynedd
- Sefydlu perthynas agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gytuno rhaglen o brosiectau tymor byr fel prosiectau arloesi ar gyfer y dyfodol. Rhai o'r rhain yw-

- Cynllun gyda chanolfan hwyr ddyfodiad i roi pecyn o ddarpariaeth gefnogol at ei gilydd fydd yn hyrwyddo datblygiad yr iaith o fewn teulu estynedig yr hwyrddyfodiad
- Cynllun i hyrwyddo ymhellach trosglwyddiad iaith yn y cartref drwy baratoi pecynnau penodol ymarfer dda ar gyfer asiantaethau, cyrff ac unigolion yn gweithio yn y maes blynyddoedd cynnar
- Hyfforddi hyfforddwyr yn y maes awyr agored drwy gyfrwng y Gymraeg a'u cefnogi i sefydlu cymdeithasau awyr agored yn lleol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynllun i hyrwyddo sefydlu polisïau iaith mewn busnesau preifat mewn 6 ardal yng Ngwynedd

- Hyrwyddo polisïau iaith yn y sector wirfoddol ac annog gwirfoddolwyr Cymraeg yn ein cymunedau

- Erbyn Mawrth 2008 bydd asesiad anghenion ieithyddol cymunedau Gwynedd wedi ei ddiweddaru bydd yn rhoi sail gadarn i gynllunio ar gyfer 2008 ymlaen ac yn sail bellach i dderbyn cyllideb "Menter Iaith" drwy fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer Gwynedd. Bydd yr asesiad hefyd yn canolbwyntio ar ddeall yn well anghenion datblygol mewn cymunedau sydd yn gostwng o dan y 60%/70% o siaradwyr Cymraeg er mwyn rhoi rhaglenni ar waith i geisio atal y dirywiad hynny.

- Datblygu trefn ar gyfer asesu ardrawiad ieithyddol ar gyfer cynlluniau economaidd i'w fabwysiadu oddi fewn i'r Cyngor ac yn ehangach

- Cynllun i ddeall materion mewnfudwyr Dwyrain Ewrop ac adnabod dulliau i'w hyrwyddo i gymuned ddwyieithog

- Gweithio drwy bartneriaid maes sgiliau ac addysg ôl 14 i hyrwyddo datblygiad Cymraeg mewn meysydd galwedigaethol angen sylw bellach ar gyfer darpariaeth ac adnoddau Cymraeg

- Mae'r Cyngor yn awr yn cynnal asesiad integredig ar ei gynlluniau mawr sydd yn adnabod unrhyw effaith prif gynlluniau neu brif strategaethau ar nifer o faterion gan gynnwys yr iaith Gymraeg

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Liz Saville**

Diolch am yr ateb.

Gofynnaf felly i chi werthfawrogi a diogelu sefyllfa unigryw Gwynedd, a pharhau i edrych am ddulliau ac offerynnau i ymestyn defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd y sir a thu hwnt.

## 8 SEFYLLFA ARIANNOL Y CYNGOR A THARGEDAU GWAHANIAETHOL

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau a'r Prif Weithredwr.

(i) Adroddodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau ar sefyllfa ariannol debygol y Cyngor ar gyfer 2008/09 a'r blynyddoedd dilynol.

Manylwyd ar y sefyllfa ariannol debygol hyd 2010/11. Eglurwyd bod y setliad cyffredinol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn gyffredinol siomedig. Roedd setliad Gwynedd, unwaith eto, yn is na chyfartaledd Cymru, ac roedd hyn ynghyd â'r ffaith fod Gwynedd wedi derbyn y setliad isaf am y tair blynedd ddiwethaf yn olynol, yn creu sefyllfa ddyrys iawn ac yn ei gwneud yn anos darganfod toriadau.

Roedd y gwahaniaeth tebygol yn ffigwr Gwynedd a Setliad Cyfartaledd Cymru dros y chwe blynedd rhwng 2005/6 a 2010/11 gyfystyr â £7.8m ac yn golygu mai Gwynedd fyddai wedi derbyn y cynnydd isaf drwy Gymru dros y cyfnod yma, ac y sgil hyn rhagwelir yr angen am cyfanswm arbedion o oddeutu £12m dros y tair blynedd nesaf - yn ychwanegol i arbedion eleni o £4m.

Wrth nodi mai tafluniad yn unig oedd y ffigurau, pwysleisiodd ei bod yn amlwg bod angen targedau arbedion gwahaniaethol ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor.

(ii) Adroddodd y Prif Weithredwr ar sefydlu targedau arbedion gwahaniaethol.

Manylodd ar y rhesymau dros eu sefydlu. Ategodd bod angen gwneud arbedion sylweddol pellach yn y dyfodol, gan fod rhagolygon yn dangos bod dyraniad anffafriol Gwynedd yn parhau dros y tair blynedd i ddod. Roedd hyn, ynghyd â'r wasgfa ariannol gyffredinol, yn rhoi pwysau mawr ar y gyllideb ac yn dwysau'r sefyllfa i'r dyfodol.

Ymhellach cyfeiriodd at Adroddiad Bramley oedd wedi ail-edrych ar bwysau amddifadedd yn y fformiwla dyrannu adnoddau i ysgolion. Pwysleisiodd iddynt lobio'n galed i geisio gohirio gweithredu goblygiadau'r adroddiad. Fodd bynnag bydd gweithredu'r fformiwla yn y man yn fygythiad sylweddol pellach i'r Cyngor ac yn medru golygu colled o £6m-£11m.

Eglurodd bod aelodau a swyddogion yn awyddus i weld datblygu cyfundrefn fwy soffistigedig gan sefydlu cyfundrefn targedau gwahaniaethol - er mwyn gwarchod rhai gwasanaethau.

Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y potensial ar gyfer targedau gwahaniaethol yn cael ei gyfyngu gan ddosbarthiad anwastad gwariant ar draws y gwasanaethau, sef bod y 3 gwasanaeth mwyaf yn cyfrif am 80% o wariant y Cyngor, a byddai dewis amddiffyn y gwasanaethau hyn yn golygu bod baich arbedion yn disgyn ar yr 20% o'r gyllideb a gynrychiolir gan y 12 gwasanaeth sy'n weddill. Yn sgil y cyfyngiad hwn, cytunwyd na ddylid treulio gormod o amser yn datblygu'r broses.

Manylwyd ar y broses i ddod â'r gyfundrefn a'r model gerbron, ac eglurwyd bod argymhelliad ynglŷn â darparu gwarchodaeth gymharol i ysgolion a symud y gwasanaeth Datblygu Economaidd i lawr i darged uwch canolig.

Ymhellach eglurwyd bod y pwyllgor craffu a Bwrdd y Cyngor wedi cymeradwyo'r cynigion ar gyfer targedau arbedion gwahaniaethol ac wedi argymell rhoi gwarchodaeth bellach i ysgolion trwy weithredu hanner cyfartaledd y toriad demograffig wedi ei wastadhau dros y tair blynedd nesaf yn unig. Yn ogystal, oherwydd y sefyllfa ddyrys, nodwyd bod y pwyllgor craffu yn awyddus i'r Cyngor llawn benderfynu'n derfynol ar y targedau gwahaniaethol.

Oddi ar hynny, mynegwyd pryder bod addysg ganolog yn y categori anghywir ac roedd dymuniad i'w symud o gategori Uwch 1 i niwtral.

Adroddodd hefyd fod y Fforwm Cyllido Ysgolion wedi gofyn i'r Cyngor ystyried ymestyn y gwarchodaeth a roddir i Ysgolion Uwchradd drwy gyfyngu effaith y toriadau a gostyngiad yn niferoedd plant gyda'i gilydd i lefel cyffredinol cyfartalog y Cyngor (hynny yw os mai 2% oedd anghenion arbedion y Cyngor y dylid cyfyngu lefel toriadau a gostyngiad niferoedd disgyblion gyda'i gilydd i 2%). Nodwyd y byddai modd gwneud hyn ond y byddai hynny ar draul pellach gwasanaethau eraill y Cyngor oedd eisoes yn wynebu toriadau uwch ar gyfartaledd.

Rhoddwyd enghreifftiau o'r model ar waith, darluniwyd effaith amrywiol benderfyniadau gwahanol a dangoswyd sut oedd codi gwasanaeth o un categori i'r llall yn cael effaith enfawr ar doriadau gwasanaethau eraill.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r elfennau canlynol:-

- gallu'r sector cynradd i gwrdd â gofynion statudol a chynnal y safon ym maes addysg gynradd yn sgil y toriadau;
- gwarchod rhai gwasanaethau ar draul gwasanaethau hanfodol i bobl fregus y sir;
- canoli toriadau mewn un man yn hytrach na gwasgaru'r toriadau ar draws y sir;
- diffyg cydnabyddiaeth i ardaloedd gwledig a phoblogaeth wasgaredig yn y fformiwla dyrannu'r setliad

Atgoffwyd yr aelodau bod ganddynt hawl i newid categorïau'r gwasanaethau er mwyn rhoi mwy o warchodaeth i rai gwasanaethau ond pwysleisiwyd mai cyfyng iawn oedd y dewisiadau mewn gwirionedd.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo'r cynigion ar gyfer targedau arbedion gwahaniaethol gan gynnwys:-**

- **rhoi gwarchodaeth bellach i ysgolion trwy weithredu hanner cyfartaledd y toriad demograffig ar y gyllideb sylfaenol wedi ei wastadhau dros y tair blynedd nesaf yn unig**
- **symud addysg ganolog o gategori uwch 1 i niwtral**

**(ii) Mynegi anfodlonrwydd ynglŷn â'r setliad sâl a'r tafluniadau annigonol am y 3 blynedd nesaf ac awdurdodi'r swyddogion i greu dirprwyaeth o gynghorau'r gogledd- orllewin Cymru lobio gweinidogion y Cynulliad a chyfleu anfodlonrwydd llwyr ynglŷn â'r sefyllfa.**

## 9 AD-DREFNU YSGOLION CYNRADD Y SIR ER LLES ADDYSG HOLL BLANT GWYNEDD

(a) Cyflwynwyd:-

(i) Adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Datblygu ar Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd;
(ii) Cynllun Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd;
(iii) Dogfen Atodol i'r Cynllun oedd yn cynnwys Cofnodion a Phenderfyniad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc (25 Hydref, 2007); Cofnodion a Phenderfyniad Bwrdd y Cyngor (20 Tachwedd, 2007);Manylion y Cynllun Ymgynghori Diwygiedig; Manylion y Cynllun Cyfansawdd Diwygiedig;Adroddiad pellach ar Ysgolion Ffederal gan Gareth Davies Jones, Cyn Arolygydd Ei Mawrhydi ac Ymgynghorydd Annibynnol; Atebion i Gwestiynau a Ofynnir yn Aml a Briff er mwyn Asesu Effaith Ieithyddol.

(b) Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Strategol Datblygu yn amlinellu prif bwyntiau'r ddogfen a phrif newidiadau'r dogfennau atodol - yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Bwrdd y Cyngor.

Rhoddwyd braslun o'r cefndir a'r llwybr gweithredu ers sefydlu'r Gweithgor Trefniadaeth Ysgolion yn Nhachwedd 2004 i edrych ar gynaladwyedd y sefyllfa bresennol.

Cyfeiriwyd at yr angen i ymateb i feirniadaeth ESTYN, sef, na roddwyd sylw digonol i drefniadaeth ysgolion, i leihau llefydd gweigion, nac i gyflwr yr adeiladau, a bod angen strategaeth glir ar gyfer cyflwyno addysg o ansawdd uchel i holl blant y sir.

Manylodd ar yr angen dybryd i newid y drefn oherwydd lleihad yn nifer plant, a rhagolygon bod gostyngiad pellach yn y 10 mlynedd i ddod. Eglurodd bod rhai dalgylchoedd cynradd wedi wynebu lleihad o dros 15%, a bod cyfartaledd maint ysgolion yng Ngwynedd yn isel sef 94 disgybl o gymharu â 172 yng Nghymru. Hefyd roedd gan Wynedd 100 o Benaethiaid, sef llawer mwy nag unrhyw sir arall yng Nghymru, ac roedd recriwtio Penaethiaid yn anos.

Nodwyd y byddai angen buddsoddiad sylweddol o £6.64m i uwchraddio cyflwr ysgolion y Sir a phwysleisiodd y gwahaniaeth mawr mewn gwariant y pen. Yn ogystal rhagwelir y bydd 23 o ysgolion â lefel defnydd o lai na 50% erbyn 2014, a bod hyn yn annerbyniol o safbwynt gwneud y defnydd gorau o adnoddau ar gyfer addysg plant y sir.

Eglurodd mai nod y cynllun oedd "datblygu ysgolion cymunedol a chynaladwy", a'r prif amcanion oedd sicrhau gwell defnydd o adnoddau; lleihau anghydraddoldeb; hyrwyddo ansawdd a safonau addysg; gwella cyfleusterau a sicrhau adeiladau addas; datblygu rôl arweiniol Penaethiaid trwy sicrhau eu bod yn ddigyswllt; cynyddu cyfartaledd maint ysgolion ynghyd â datblygu ysgolion cymunedol.

Cyfeiriodd at y cyfuniad o drefniadau gwahanol a ystyriwyd, er mwyn ymateb i sefyllfaoedd lleol o fewn dalgylchoedd, gan gynnwys Ysgol

Ffederal, Ysgol Ardal, cau rhai ysgolion a pharhad eraill, ac ymhelaethodd ar y gwahanol drefniadau a'u manteision.

Pwysleisiodd yr angen i gynnal cyfnod ymgynghori ar drefniadau i warchod hunaniaeth safleoedd o fewn y drefn Ffederal.

O safbwynt Ysgol Ardal, pwysleisiodd fod yma gyfle am fuddsoddiad sylweddol ar gyfer adeiladu ysgolion newydd a bod cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau cymunedol o fewn dalgylchoedd.

Cyfeiriodd at y meini prawf ar gyfer yr ysgolion a gynigir ar gyfer cau, gan gynnwys nifer y disgyblion a'r rhagolygon i'r dyfodol ynglŷn â chyflwr ac addasrwydd yr adeiladau.

O safbwynt yr ysgolion na fydd yn newid, eglurodd y bwriedir sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer Pennaeth digyswllt a thuag at gynnal a chadw adeiladau.

Rhoddwyd crynhoad o'r cynllun, sef sefydlu 18 Ysgol Ffederal ar gyfer 55 ysgol sy'n bodoli ar hyn o bryd, 3 Ysgol Ardal ar safleoedd ysgolion presennol, adeiladu 8 Ysgol Ardal newydd ar safleoedd newydd, gan adael 19 ysgol fel ag y maent. Byddai'n golygu bod nifer o safleoedd ysgolion yn lleihau o 106 i 85. Esboniwyd y byddai hyn yn lleihau'r nifer o ysgolion i 48 (ar 85 safle) gyda 48 Pennaeth Arweiniol a 48 corff llywodraethu ac y byddai oddeutu 116 o ddisgyblion fesul safle ar gyfartaledd erbyn 2014.

O safbwynt ariannol, eglurwyd y byddai'r Cynllun arfaethedig yn rhyddhau arbedion blynyddol o £1.4m a gellid ail-fuddsoddi £935,000 o'r arbediad i sicrhau bod gan Benaethiaid amser digyswllt. Yn y tymor hir byddai isafswm arbediad blynyddol oddeutu £509,000. Oherwydd y byddai nifer llai o ysgolion, gellid buddsoddi'r arbedion mewn addysg y plant ar draul cynnal a chadw'r adeiladau presennol. Hefyd golygai bod dyraniad y pen yn codi gyda 70% o blant y sir yn elwa o'r strategaeth, a byddai buddsoddiad sylweddol mewn adeiladau newydd.

Eglurwyd ymhellach bod y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Bwrdd y Cyngor wedi rhoi sylw trylwyr i'r Cynllun, ac wedi cymeradwyo'r argymhellion. Fodd bynnag roeddynt yn gryf o'r farn y dylid ymgymryd ag asesiad ieithyddol a chymdeithasol yr amrywiol opsiynau o fewn y Cynllun. Hefyd roeddynt eisiau cynnal ymgynghoriad ar y strategaeth a'r modelau gwahanol, gan gynnwys y model ffederal; clustnodi mwy o amser ar gyfer ymgynghori ar y cynigion unigol ac addasu'r amserlen wreiddiol ar gyfer cau rhai ysgolion, sefydlu Ysgolion Ffederal ac Ysgolion Ardal. Nodwyd bod dyheadau'r Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd wedi eu hymgorffori yn y dogfennau atodol a ddosbarthwyd gyda rhaglen y cyfarfod.

Pwysleisiodd bod yr amserlen wedi ei addasu er mwyn sicrhau amser digonol ar gyfer trafod y strategaeth a'r modelau fydd yn mynd

rhagddo rhwng Ionawr a Mawrth 2008, a bod mwy o amser wedi ei neilltuo ar gyfer trafod y cynigion unigol.

Manylwyd ar yr amserlen o ran adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn er mwyn gwneud penderfyniadau terfynol ar y cynigion a'r trefniadau ymgynghori.

I gloi pwysleisiodd y Cyfarwyddwr y goblygiadau o beidio gweithredu, sef cyflwr ysgolion yn gwaethygu; problemau recriwtio Penaethiaid; cynnydd mewn llefydd gweigion; ysgolion mwy eu maint yn derbyn llai o arian; maint dosbarthiadau'n cynyddu, anghydraddoldeb yn parhau; bygythiad i rai o ysgolion gwledig y sir a pheryglu ansawdd addysg plant. Pwysodd yn gryf ar i'r Cyngor gymeradwyo cyfnod o ymgynghori ar y ddogfen ddrafft yn unol â'r rhaglen ymgynghori.

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr am ei gyflwyniad cynhwysfawr.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion oedd gerbron sef:-

*(i) Cymeradwyo cyfnod o ymgynghori ar y ddogfen drafft "Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd;*
*(ii) Cymeradwyo'r rhaglen ymgynghori fel y'i cyflwynir yn y "Cynllun Ymgynghori Diwygiedig"*
*(iii) Cefnogi'r bwriad i ymgymryd ag asesiad ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol o weithredu cynigion y ddogfen.*

Nododd y cynigydd a'r eilydd eu bod yn deall rhai o'r pryderon ynglŷn â'r Cynllun drafft, fodd bynnag, oherwydd bod y sefyllfa gyfredol yn gwbl anghynaladwy, roedd rhaid ymateb i'r her a chynnal cyfnod o ymgynghori ar y trefniadau arfaethedig - er mwyn rhoi addysg gynradd y sir ar dir cadarn i'r dyfodol.

(ch) Cynigiwyd, ac eiliwyd gwelliant i gymal olaf yr argymhelliad sef y dylid *"ymgymryd ag asesiad cyflawn o fanteision ac anfanteision ffederaleiddio, gan ddwyn adroddiad pellach i'r Cyngor yn 2008"*

Nid oedd cynigydd y gwelliant wedi ei argyhoeddi bod y Cynllun arfaethedig er lles <u>holl</u> blant y sir, a phwysleisiodd bwysigrwydd ymgymryd ag asesiad o fanteision ac anfanteision ffederaleiddio ynghyd â sicrhau bod ymgynghori cyflawn a thrwyadl yn mynd rhagddo.

Cytunwyd i ychwanegu'r gwelliant i'r argymhelliad gwreiddiol.

(d) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant pellach, sef,

*(i) Gohirio penderfyniad i ymgynghori ar y ddogfen ddrafft, a'n bod yn awdurdodi swyddogion i addasu'r cynllun i adlewyrchu yn deg y trafodaethau a'r ymgynghoriad a ddigwyddodd dros y ddwy flynedd diwethaf*

(ii) *Cefnogi'r bwriad i ymgymryd ag asesiad ardrawiad ieithyddol, cymdeithasol ac amgylcheddol o weithredu cynigion y ddogfen, ynghyd ag asesiad cyflawn o fanteision ac anfanteision ffederaleiddio, a dwyn adroddiad pellach i'r Cyngor yn 2008*

Tra bod cefnogwyr y gwelliant i ohirio penderfyniad, yn derbyn bod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy, a bod angen newid y trefniadau, mynegwyd consyrn bod y dadleuon a roddir dros gau rhai ysgolion y sir yn wan, a nodwyd pryder ynglŷn â chau ysgolion llwyddiannus. Hefyd nid oeddynt wedi eu hargyhoeddi ynglyn â rhagoriaethau ysgolion federal a nodwyd pryder y byddai ffederaleiddio'n golygu colli hunaniaeth ysgolion ac yn lladd cymunedau.

Ymhellach, eglurwyd bod llawer o'r anfodlonrwydd yn deillio o'r farn bod awduron y ddogfen wedi anwybyddu sylwadau'r ymgynghori blaenorol, ac nad oedd y dogfennau'n adlewyrchu'r math o drafodaethau oedd wedi digwydd bryd hynny. Roedd sawl aelod yn pwyso ar y Cyngor i ohirio penderfyniad er mwyn rhoi cyfle i addasu ac ail-lunio'r ddogfen i adlewyrchu'n deg trafodaethau'r ymgynghori - cyn ail-gyflwyno'r Cynllun i'r Cyngor.

Fodd bynnag, pwysleisiwyd yn gryf nad oedd aelodau'n amau didwylledd y swyddogion.

Nodwyd bod y nifer helaeth o ddeisebau a llythyrau a dderbyniwyd ynghyd â phresenoldeb cynifer o bobl oddi allan ac oddi mewn i'r Siambr yn dangos pryder rhieni, llywodraethwyr, athrawon a thrigolion ynglyn a'r Cynllun ledled y sir, a phwyswyd ar y Cyngor i ohirio penderfyniad.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant i ohirio penderfyniad:-

**O blaid (28)**

Y Cynghorwyr:
S W Churchman, E T Dogan, T G Ellis, R Glyn Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, E H Griffith, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Sylvia Humphreys, Brian Jones, John Gwilym Jones, June Jones, R Morris Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dilwyn Lloyd, Bill Lovelock, June Marshall, J W Meredith, Glyn Owen, W Tudor Owen, Gerald Parry, Liz Saville Roberts, Kathleen Thomas, M. L.Vaughan, Ernest Williams ac Owain Williams

**Yn erbyn (45)**

Y Cynghorwyr:
Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, Alun Wyn Evans, Tomos Evans, W A Evans, Margaret Griffith, Huw Hughes, Richard Parry Hughes, Robert J Hughes, O P Huws, Dafydd Iwan, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Arwel Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, Evie Morgan Jones, E Meinir Jones, Henry Jones, Iris

Margretta Jones, J R Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Godfrey Northam, Meinir Owen, M Sol Owen, W Roy Owen, R Arwel Pierce, Emyr Pugh, D H Roberts, Caerwyn Roberts, Ieuan Roberts, W Gareth Roberts, Jean Roscoe, Dyfrig Siencyn, Alan Williams, Ann Williams, G.O.Williams, J.W.Williams ac R H Wyn Williams.

Datganodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

(dd) Mynegwyd cefnogaeth i'r argymhelliad gwreiddiol (yn cynnwys asesiad cyflawn o fanteision ac anfanteision ffederaleiddio) sef :-

*(i) Cymeradwyo cyfnod o ymgynghori ar y ddogfen drafft "Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd;*

*(ii) Cymeradwyo'r rhaglen ymgynghori fel y'i cyflwynir yn y "Cynllun Ymgynghori Diwygiedig" yn yr Atodiad;*

*(iii) Cefnogi'r bwriad i ymgymryd ag asesiad ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol o weithredu cynigion y ddogfen ynghyd ag asesiad cyflawn o fanteision ac anfanteision ffederaleiddio, a dwyn adroddiad pellach i'r Cyngor yn 2008*

Roedd amryw o'r farn y byddai gohirio penderfyniad yn drychineb gan fod angen dod i gasgliad a gweithredu ar frys oherwydd bod y sefyllfa gyfredol yn argyfyngus mewn rhai o ysgolion bach y sir.

Ategwyd y rhesymau niferus dros ad-drefnu addysg gynradd a chyfeiriwyd yn arbennig at yr amrywiaeth mewn gwariant y pen. Tra'n derbyn bod rhaid gwario mwy ar addysg wledig, pwysleisiwyd bod y gwahaniaeth presennol yn annerbyniol a bod angen cau'r bwlch er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb i holl blant Gwynedd.

Cyfeiriwyd at lwyddiant ysgolion ffederal mewn rhannau eraill o Gymru. Pwysleisiwyd y bydd yr ysgolion ffederal wedi eu teilwrio ar gyfer anghenion Gwynedd. Hefyd byddant yn darparu cyfleoedd i rannu arbenigeddau athrawon a bydd modd diogelu hunaniaeth yr ysgolion gwledig trwy'r Pennaeth fydd yn gyfrifol am roi arweiniad ieithyddol a chymunedol yn ogystal ag ar faterion cwricwlaidd.

Mewn perthynas â'r sefyllfa ariannol, eglurwyd bod pwysau enfawr ar gyllideb gyfalaf y Cyngor a bod angen buddosdiiad anferthol ar gyfer uwchraddio adeiladau ysgolion. Fodd bynnag, eglurwyd bod arian ar gael o du'r Cynulliad ar gyfer adeiladu ysgolion newydd - yn amodol ar fod cynllun yn ei le. Nodwyd hefyd y bydd modd sicrhau arian ychwanegol trwy werthiant safleoedd a thrwy ddefnyddio'r Cod Darbodus.

Mynegwyd barn bod y diffyg gwrando i'r ymgynghori blaenorol wedi creu chwerwder a gwrthwynebiad. Nodwyd hefyd bod angen diffiniad ac eglurhad o'r broses ymgynghori a phwysleisiwyd yn gryf bod **rhaid** gwrando ac ymateb i'r ymgynghori nesaf.

Yn ychwanegol, nodwyd bod yr ymgynghori gwreiddiol wedi rhoddi sylw i glystyru ysgolion, ond nad oedd yr elfen hon wedi ei chynnwys yn y Cynllun drafft. Gwrthodwyd awgrym i edrych ar fanteision ac anfanteision clystyru ysgolion fel rhan o'r ymgynghori.

Hefyd mynegwyd anfodlonrwydd am nad oedd asesiad amgylcheddol wedi ei gynnwys yn y ddogfen. Fodd bynnag nid oedd cefnogaeth i gynnwys asesiad amgylcheddol yn y Cynllun.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar yr argymhelliad gwreiddiol wedi ei ddiwygio cynnwys asesiad o fanteision ac anfanteision ffederaleiddio.

**O blaid (42)**

Y Cynghorwyr
E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, Alun Wyn Evans, R Glyn Evans, Tomos Evans, W A Evans, Huw Hughes, Richard Parry Hughes, Robert J Hughes, Sylvia Humphreys, Dafydd Iwan, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Arwel Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, Evie Morgan Jones, E Meinir Jones, Henry Jones, Iris Margretta Jones, J R Jones, Linda Wyn Jones, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Godfrey Northam, Meinir Owen, M Sol Owen, W.Roy Owen, R Arwel Pierce, Emyr Pugh, D H Roberts, Caerwyn Roberts, Ieuan Roberts, W Gareth Roberts, Jean Roscoe, Dyfrig Siencyn, Alan Williams, G.O.Williams a J.W.Williams

**Yn erbyn (23)**

Y Cynghorwyr
Elwyn Edwards, T G Ellis, Simon Glyn, E H Griffith, Selwyn Griffiths, Brian Jones, John Gwilym Jones, June Jones, R L Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dilwyn Lloyd, Bill Lovelock, June Marshall, J W Meredith, W Tudor Owen, Gerald Parry, Liz Saville Roberts, Kathleen Thomas, M. L.Vaughan, Ernest Williams, Owain Williams ac R H Wyn Williams.

**Atal (5)**

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Gwen Griffith, Margaret Griffith, O P Huws ac Ann Williams

Roedd y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones, Richard Morris Jones a Glyn Owen wedi gadael y Siambr cyn y bleidlais uchod.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo cyfnod o ymgynghori ar y ddogfen drafft "Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd;**

**(ii) Cymeradwyo'r rhaglen ymgynghori fel y'i cyflwynir yn y "Cynllun Ymgynghori Diwygiedig" yn yr Atodiad;**

**(iii) Cefnogi'r bwriad i ymgymryd ag asesiad ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol o weithredu cynigion y ddogfen ynghyd ag asesiad**

**cyflawn o fanteision ac anfanteision ffederaleiddio, a dwyn adroddiad pellach i'r Cyngor yn 2008**

## 10 TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar ganiatau disgownt i ail gartrefi a thai gwag yn 2007/08.

Adroddwyd

(i) bod y Cyngor wedi penderfynu caniatau dim disgownt i ail gartrefi (dosbarthiadau A a B) yn flynyddol ers derbyn disgresiwn dan reoliadau 1998 ac wedi caniatau disgownt 50% i ddosbarth C (eiddo gwag) y llynedd.

(ii) bod adolygiad o Strategaeth Cartrefi Gwag yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a phan fydd y gwaith wedi ei gwblhau, bydd angen i bolisi trethiant ar dai gwag gydymggurfio â'r strategaeth honno.

**PENDERFYNWYD**
**a) Yn ffurfiol eto ar gyfer 2008/09 fod Cyngor Gwynedd yn caniatau DIM disgownt dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarth A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig) (Cymru) 1998.**
**b) Parhau i ganiatau disgownt safonol o 50% yng nghyswllt tai gwag (dosbarth C) ar gyfer 2007/08.**

## 11 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Adroddwyd

(i) bod angen i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor, a cheisir ddyrannu cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau pwyllgorau'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn ogystal;

(ii) bod sawl aelod wedi newid grwp gwleidyddol yn ddiweddar a bod hyn wedi cael effaith ar gydbwysedd gwleidydd y Cyngor

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi a derbyn cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig canlynol y Cyngor :-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **43** |
| **Annibynnol** | **14** |
| **Llafur** | **9** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **6** |
| **Cenedlaetholwyr Annibynnol** | **2** |
| **Aelod Unigol** | **1** |

**(ii) Mabwysiadu'r dyraniad seddau diwygiedig ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tablau isod:-**

**BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Cenedlaetholwyr Annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 9 | 3 | 2 | 1 | |
| Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu) | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Cenedlaetholwyr Annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau a Chorfforaethol | 9 | 3 | 2 | 1 | |
| Amgylchedd | 9 | 2 | 2 | 2 | |
| Plant a Phobl Ifanc | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 |
| Gofal | 9 | 3 | 1 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Cenedlaetholwyr Annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 9 | 3 | 2 | | 1 |
| Cwynion | 4 | 2 | 1 | | |
| Adnoddau Dynol | 7 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Cynllunio Canolog | 7 | 2 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 2 | 1 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | |
| Pensiynau | 4 | 1 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Lleol | 6 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Cydbwyllgor | 4 | 1 | 1 | 1 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AAA** | | | | | |
| **Cydbwyllgor Gwastraff Môn/Arfon** | **4** | **1** | **1** | **1** | |
| **Is-bwyllgor Elusennau** | **5** | **2** | **1** | **1** | |
| **Is-bwyllgor Iaith** | **4** | **2** | **1** | | |
| **Trethi Annomestig** | **3** | **1** | **1** | | |
| **Adolygu Tenantiaeth Gyflwyniadol** | **2** | **1** | | | |
| **CYSAG** | **4** | **1** | **1** | **1** | |

**(iii) mabwysiadu dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau diwygiedig y prif bwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r tabl isod:-**

| | **Pwyllgorau** | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|---|
| **1** | **Bwrdd y Cyngor** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| **2** | **Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu)** | **Annibynnol** | **Llafur** |
| **3** | **Adnoddau a Chorfforaethol** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| **4** | **Amgylchedd** | **Llafur** | **Plaid Cymru** |
| **5** | **Plant a Phobl Ifanc** | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| **6** | **Gofal** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| **7** | **Archwilio** | **Llafur** | **Annibynnol** |
| **8** | **Cwynion** | **Annibynnol** | **Annibynnol** |
| **9** | **Cynllunio Canolog** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| **10** | **Trwyddedu Canolog** | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol** |
| **11** | **Pensiynau** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| **12** | **Adnoddau Dynol** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Cenedlaetholwyr Annibynnol** |
| **13** | **Apelau Cyflogaeth** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| **14** | **Ardal Arfon** | **Plaid Cymru** | **Llafur** |
| **15** | **Ardal Dwyfor** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| **16** | **Ardal Meirionnydd** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |

## 12 FIOEDD ETHOLIADOL LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ar ddiwygio ffioedd etholiadau lleol.

Adroddwyd bod angen symleiddio ac adolygu'r strwythur mewn ymateb i'r cynydd yn y dyletswyddau sydd ynghlwm â phleidleisiau post ac er mwyn mabwysiadu strwythur tebyg i gynghorau eraill Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r ffioedd a atodwyd i adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd o 1Ebrill 2008, ac awdurdodi'r Pennaeth i gynyddu'r ffioedd yn flynyddol yn unol â lefel chwyddiant.**

## 13 ADOLYGU POLISI TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ar adolygu Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Adroddwyd bod angen i'r Cyngor adolygu ei Bolisi Trwyddedu pob 3 mlynedd, a bod y polisi presennol wedi ei fabwysiadu'n wreiddiol gan y Cyngor yn Rhagfyr 2004.

Manylwyd ar y newidiadau mewn perthynas â dileu cyfeiriadau ar drefniadau trosiannol, adlewychu newidiadau mewn deddfwriaeth ers 2004 ac newidiadau yn sgil canllawiau newydd a cyhoeddwyd yng Ngwanwyn 2007.

**PENDERFYNWYD**
**(i) Cymeradwyo'r newidiadau i'w cynnwys yn y polisi .**
**(ii) Mabwysiadu'r Polisi Trwyddedu diwygiedidg**

## 14 RHYBUDD O GYNNIG

Roedd rhybudd o gynnig wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Dafydd Iwan o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynglyn â'r defnydd o'r Gymraeg ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf.

**PENDERFYNWYD gohirio trafod y cynnig tan cyfarfod nesaf o'r Cyngor oherwydd bod cynifer o aelodau wedi gorfod gadael cyn diwedd y cyfarfod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 p.m. a daeth i ben am 6:45 p.m.